



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# A oes gennych westeion sy'n talu?

Os felly, mae'r gyfraith diogelwch tân yn gymwys i chi, ac mae'n rhaid i chi gymryd camau gweithredu.

.....  
Gwybodaeth am  
gydymffurfio  
â'r gyfraith  
diogelwch  
tân i bobl sy'n  
darparu llety  
dros nos  
.....



**THE CHIEF  
FIRE OFFICERS  
ASSOCIATION**

The professional voice of the  
UK fire and rescue service

# Rhagair a chynnwys



**Sadiq Khan MP**  
Is-ysgrifennydd  
Seneddol Cymunedau  
a Llywodraeth Leol

Mae diogelwch tân yn bwysig. Bydd meddu ar ddealltwriaeth glir o'r risg y mae tân yn ei pheri yn eich eiddo yn eich galluogi i ystyried y trefniadau diogelwch tân cywir a'u rhoi ar waith er mwyn diogelu nid un unig fywydau eich teulu ac unrhyw westeion sy'n aros gyda chi, ond hefyd eich eiddo a'ch menter fusnes.

Mae'n bleser gennyf felly gyhoeddi'r llyfryn hwn, sydd â'r nod o helpu busnesau lletygarwch bach i gydymffurfio â gofynion y gyfraith. Mae'n cynnig gwybodaeth ddefnyddiol a syml i chi am yr hyn y mae'n debygol y bydd angen i chi ei ystyried ac, wrth gwrs ei wneud, er mwyn sicrhau lefel ddigonol o ddiogelwch tân yn eich eiddo.

Wrth gwrs, mae risg yn amrywio. Ni ellir ei rheoli mewn un ffordd 'gywir'. Nid oes un eiddo sydd yr un fath ag un arall, felly mae angen ystyried dull priodol, sy'n seiliedig ar amgylchiadau unigol eich safle, er mwyn rheoli'r risg o dân yn ddigonol. Felly, yn y rhan fwyaf o achosion, credwn mai'r perchenogion sydd yn y sefyllfa orau i ystyried y risgiau a mynd i'r afael â hwy, gan ddefnyddio eu synnwyr cyffredin ynghyd â rhywfaint o gyngor technegol penodol, os oes angen.

Rwy'n falch iawn hefyd ein bod wedi gallu datblygu'r llyfryn hwn mewn partneriaeth â llawer o'r sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau yn y sector hwn. Mae eu cyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy o ran sicrhau ein bod yn teilwra'r wybodaeth ac yn ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ateb nifer o'r pryderon neu'r problemau penodol a wynebwyd gan rai ohonoch ers i'r Gorchymyn Diogelwch Tân gael ei gyflwyno.

Gobeithio y bydd y llyfryn hwn yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth sy'n rhoi'r hyder i chi ystyried diogelwch tân yn eich busnes a, lle y bo angen, ei wella, a pharhau i oruchwylio'r broses o reoli diogelwch tân yn y dyfodol.

**3 Eich cyfrifoldebau o dan y gyfraith**

**6 Asesiad risg diogelwch tân - y pum cam allweddol**

**8 Rhestr wirio**

**10 Enghraifft o asesiad risg**

**12 Cwestiynau ac atebion**

**18 Cyngor a gwybodaeth**

## Os ydych yn darparu llety i westeion am dâl yng Nghymru a Lloegr, cynlluniwyd y llyfryn hwn i'ch helpu.

Mae'n rhoi gwybodaeth syml am sut i gydymffurfio â'r gyfraith i bobl sy'n berchen ar sefydliadau gwely a brecwast bach, tai llety, llety hunanarlwyo a thafarndai ag ystafelloedd. Mae hefyd yn cynnig rhywfaint o gyngor ymarferol i chi ar y rhagofalon tân y gall fod angen eu cymryd er mwyn sicrhau bod eich safle yn ddiogel.

Bydd yn:

- dweud wrthyh sut i gydymffurfio â'r gyfraith drwy gynnal asesiad risgiau tân;
- rhoi canllaw pum cam i'ch helpu i gynnal yr asesiad risg hwnnw;
- ateb eich cwestiynau;
- dweud wrthyh ble y gallwch gael gwybodaeth;
- rhoi cyngor ymarferol i chi ar y mesurau diogelwch tân a all fod yn briodol i ddarparu lefel ddigonol o ddiogelwch tân ar safleoedd o faint cartref teulu.

### A yw'r gyfraith diogelwch tân yn gymwys i mi?

Ydy, mae'r gyfraith diogelwch tân yn gymwys i chi os oes unrhyw un yn talu i aros yn eich eiddo, ar wahân i fyw yno fel cartref parhaol.

Er enghraifft, os ydych yn darparu:

- llety ar safle bach, fel sefydliadau gwely a brecwast, tai llety, ffermdai, tafarndai a bwytai ag ystafelloedd;
- llety hunanarlwyo, fel tai, bythynnod, chalets, fflatiau a charafannau gwyliau; neu
- hosteli neu fynceri.

Nid yw hon yn rhestr lawn ac nid oes unrhyw ddiffiniad terfynol o ystyr safle 'bach' na 'mawr'.

Fel rheol, os yw eich safleoedd yn llawer mwy o faint na chartref teulu, neu os ydynt yn cynnwys llwybrau hir, anarferol neu gymhleth i allanfa, mae'n debygol y bydd angen cyngor manylach arnoch ar yr amrywiaeth o drefniadau diogelwch tân y mae angen i chi eu hystyried.



**Darllenwch y llyfryn hwn a'i gadw i'ch helpu i gydymffurfio â'r gyfraith a diogelu eich hun, eich gwesteion, eich safle a'ch busnes rhag tân.**

## ? Beth sy'n rhaid i mi ei wneud?

Mae'r gyfraith a gyflwynwyd ym mis Hydref 2006 - a elwir yn Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 - yn eich gwneud yn gyfrifol am gymryd camau i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio eich safle rhag y risg o dân.

### Mae'n rhaid i chi:

- gynnal asesiad risgiau tân
- os oes angen, gwella eich mesurau diogelwch tân
- adolygu'r risgiau, a'ch mesurau diogelwch tân, yn barhaus

Mae asesiad risgiau tân yn rhywbeth y gallwch ei gynnal eich hun. Mewn llawer o achosion, yn arbennig ar safleoedd llai o faint a ddefnyddir hefyd fel cartref teulu, mae'n bosibl mai synnwyr cyffredin ydyw. Ond, mae angen i chi neilltuo amser i asesu'n drylwyr y risgiau ar eich safle ac yna rhoi mesurau ar waith i'w lleihau.

## ? Ble y gallaf gael cymorth?

### Dechreuwch drwy ddarllen y llyfryn hwn a'i gadw.

Mae'n esbonio'r broses o asesu risgiau ac yn rhoi rhywfaint o gyngor i chi ar y trefniadau a **all** fod yn addas i ddiogelu eich safle.

Mewn llawer o achosion, chi yw'r person gorau i ystyried y risgiau sy'n debygol o fod ar eich safle, a sut y gallwch eu rheoli. Dylai'r llyfryn hwn eich helpu i ddechrau arni, ond gallwch gael cyngor manylach a thechnegol yn y canllaw ar asesiadau risg diogelwch tân ar gyfer llety dros nos. Gallwch lawrlwytho'r canllaw ar gyfer llety dros nos am ddim o [www.wales.gov.uk/fire](http://www.wales.gov.uk/fire).

Gallwch ddewis rhywun i'ch helpu i gynnal yr asesiad risg. Gall fod yn rhywun sy'n meddu ar yr wybodaeth neu'r arbenigedd angenrheidiol i gynnal y dasg hon yn eich barn chi, gan gynnwys rhywun rydych yn ei adnabod sydd eisoes wedi cynnal asesiad risgiau tân neu arbenigwr ym maes diogelwch tân rydych yn ei dalu. Os byddwch yn dewis cael cyngor neu gymorth gan eraill, chi fydd yn gyfrifol yn gyfreithiol o hyd am yr asesiad risg.

Os byddwch yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arnoch am fesurau priodol ar ôl darllen y canllaw ac o bosibl gael cymorth gan rywun arall, gallwch gysylltu â'ch Gwasanaeth Tân Lleol.

### Ni all y Gwasanaeth Tân gynnal yr asesiad risg ar eich cyfer.

Ond, mae'n bosibl y gall roi gwybodaeth a chyngor ar fesurau priodol i ddiogelu eich safle rhag dân.

## ? Beth yw asesiad risg diogelwch tân?

Archwiliad trylwyr o'ch safle a'r bobl sy'n debygol o'i ddefnyddio, gan gynnwys yr henoed, plant ifanc iawn a phobl anabl. Mae'n ystyried y risg o dân a'r mesurau y mae angen i chi eu rhoi ar waith i'w rwystru a chadw pobl yn ddiogel.

Rydym wedi llunio pum cam allweddol sy'n bwysig wrth gynnal asesiad risg. Rydym wedi eu hesbonio ar dudalen 6 a 7 ac wedi cynnwys rhestr wirio ar dudalen 8 a 9. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall beth sydd angen i chi ei wneud.

➔ **Bydd y gyfraith yn gymwys i chi pan fyddwch yn gosod ystafell yn eich cartref fel llety i westai, hyd yn oed os dim ond yn achlysurol y gwnewch hynny.**

## Cadwch gofnod

Mae'n syniad da cadw cofnod ysgrifenedig o ganfyddiadau eich asesiad risg. Os oes gennych bum cyflogai neu fwy (gan gynnwys unrhyw rai sy'n gweithio'n rhan amser), mae'r gyfraith yn nodi bod yn **rhaidd** i chi gadw cofnod ysgrifenedig o'r canfyddiadau pwysig. Canfyddiadau pwysig yw'r rhai hynny sy'n nodi'r mesurau sydd gennych neu rydych yn bwriadu eu rhoi ar waith i reoli'r risg, ynghyd â manylion unrhyw un sy'n debygol o fod yn arbennig o agored i niwed.

Bydd cadw cofnod yn arbed amser ac ymdrech i chi pan fyddwch yn ei adolygu ac yn ei ddiweddarau. Bydd hefyd yn dangos eich bod wedi cynnal asesiad risg os bydd y Gwasanaeth Tân yn ymweld â'ch safle.

Ceir enghraifft o'r hyn y **gall** cofnod ysgrifenedig o ganfyddiadau pwysig fod ar dudalen 10 o'r llyfryn hwn, ynghyd â ffurflen wag (tudalen 11) y mae'n bosibl y byddwch am wneud llungopi ohoni a'i llenwi ar gyfer eich safle. Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon am ddim o'n gwefan [www.wales.gov.uk/fire](http://www.wales.gov.uk/fire).

## ? Beth sydd angen i mi ei wneud nesaf?

Mae angen i chi gynnal asesiad risgiau tân.

Dilynwch y pum cam allweddol ar dudalen 6 a 7. Rydym wedi datblygu'r rhestr wirio ar dudalen 8 a 9 i'ch helpu i ddilyn y camau angenrheidiol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, trowch at y cwestiynau ac atebion ar dudalen 12.

Gweler tudalen 18 i gael gwybod ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth.

→ **Mae cymryd yr amser i gynnal eich asesiad risg a gweithredu arno yn eich diogelu chi, eich gwesteion, eich safle a'ch busnes.**



## DILYNWCH Y PUM CAM ALLWEDDOL

Aseswch eich risg o dân ac ystyriwch sut i gadw pobl ar eich safle yn ddiogel.

Lluniwch gynllun i wella mesurau diogelwch tân ar eich safle.

Cadwch gofnod o'ch asesiad a'i ddefnyddio i gynnal adolygiadau rheolaidd.

Gall y rhestr wirio ar dudalen 8 a 9 eich helpu i gofnodi'r holl wybodaeth bwysig.

**I gael rhagor o gyngor ar fesurau diogelwch tân priodol posibl, gweler yr adran cwestiynau ac atebion ar dudalen 12.**



## CAM 1

### Beth yw perygl tân?

**Ystyriwch sut y gallai tân ddechrau ar eich safle.**

Mae angen i chi fynd o amgylch eich safle, y tu mewn a'r tu allan iddo, i chwilio am beryglon.

Bydd tân yn dechrau pan ddaw gwres i gysylltiad â thanwydd (unrhyw beth sy'n llosgi) ac ocsigen yn yr aer. Mae angen i chi gadw gwres a thanwydd ar wahân.

- > Er enghraifft, chwiliwch am:
  - fflamau noeth;
  - gwesogyddion
  - cyfarpar trydan;
  - arwyddion o smygu;
  - matsis; ac
  - unrhyw beth arall sy'n mynd yn boeth iawn neu sy'n achosi gwreichion.

Edrychwch yn ofalus ar geginau lle mae pobl yn gweithio'n agos i fflamau noeth, ystafelloedd golchi dillad, ac ystafelloedd gwsteion lle y gall pobl ddod â matsis a chanhwyllau neu ardaloedd lle y gallant smygu.

**Ystyriwch beth allai losgi a pha mor gyflym y gallai tân ledu.**

- > Er enghraifft, gallai golch, llenni, dodrefn ac olew coginio i gyd losgi, yn yr un modd ag y gallai tanwydd mwy amlwg fel petrol, paent, farnais a gwirod gwyn.
- > Chwiliwch am danwydd y tu allan i'r safle hefyd. Er enghraifft, gall sbwriel losgi. Os bydd hyn yn digwydd, a allai tân ledu i'r tu mewn i'r eiddo neu effeithio ar y llwybr dianc?
- > Ystyriwch y modd y cafodd eich eiddo ei adeiladu - er enghraifft, a yw'r waliau wedi'u gwneud o fric, caledfwrdd neu fwrdd sglodion? A oes teils polystyren ar y nenfwd?



## CAM 2

### Pwy sy'n wynebu risg?

**Mae pawb yn wynebu risg os oes tân.**

Mae angen i chi feddwl amdanoch chi eich hun, eich teulu, eich gwsteion, eich staff (os oes rhai gennych) ac unrhyw un arall sy'n ymweld â'r safle. Mae rhai pobl yn debygol o wynebu mwy o risg nag eraill.

- > Er enghraifft, gall plant ifanc, yr henoed ac unigolion ag anableddau fod yn arbennig o agored i niwed, yn ogystal â'r rheini nad ydynt yn gyfarwydd â chynllun yr adeilad.



**CAM  
3**

## Sut rydych yn bwriadu cadw pobl yn ddiogel?

Gan ddefnyddio'r hyn a ganfuwyd gennych yng nghamau 1 a 2 dylech allu cael gwared ar y peryglon rydych wedi dod o hyd iddynt neu eu lleihau.

- > Er enghraifft, ystyriwch p'un a allai ffynhonnell wres, fel peiriant sychu gwallt, gwympo, cael ei fwrw drosodd neu ei wthio i mewn i rywbeth a fyddai'n llosgi. A yw eich cyfarpar trydan yn fodern ac yn gweithio'n iawn?

### **Nawr ystyriwch beth sydd angen i chi ei wneud os oes tân ar eich safle**

#### **Sut y caiff ei ganfod a sut y byddwch yn hysbysu pobl ar y safle?**

- > Er enghraifft, a oes gennych system canfod tân awtomatig?  
A yw'r synwryddion yn y man cywir?  
A yw'r system yn cael ei phrofi'n rheolaidd?  
A allwch glywed y larwm ym mhob ystafell wely?  
A yw'r larwm yn ddigon uchel i ddefro rhywun sy'n cysgu?

#### **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i ddiogelu pobl ar eich safle a gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu dianc mewn argyfwng?**

- > Mae angen i chi wneud yn siŵr bod eich gwesteion (ac unrhyw staff) yn gwybod beth i'w wneud os oes tân.  
A fydd pawb ar y safle yn gallu dianc mewn argyfwng?  
A ydych wedi cynnal ymarfer tân?  
A oes gennych gyfarpar i alluogi rhywun i ddiffodd tân bach?  
A yw'n syml i'w ddefnyddio neu a fyddai angen hyfforddiant ar bobl?



**CAM  
4**

## Cofnodi, cynllunio a hyfforddi

Mae'n syniad da cadw cofnod ysgrifenedig o ganfyddiadau pwysig eich asesiad risg. Dylai hyn gynnwys:

- > unrhyw beryglon tân rydych wedi'u canfod a'r hyn rydych wedi'i wneud i'w lleihau neu gael gwared arnynt;
- > unrhyw gamau eraill rydych yn bwriadu eu cymryd i wella trefniadau diogelwch tân a phryd rydych yn bwriadu eu cymryd.

Mae ffurflen i chi gofnodi eich canfyddiadau a'r gwelliannau rydych wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud ar gael ar dudalen 11 o'r llyfryn hwn.



**CAM  
5**

## Cynnal eich asesiad risgiau tân

Dylai eich cofnod ysgrifenedig fod yn ddogfen ddefnyddiol a gweithredol. Nid yw'n rhywbeth y dylid ei lenwi ac yna anghofio amdano.

- > Dylech adolygu'r asesiad yn rheolaidd, ac os oes angen, ei ddiweddarau.
- > Dros amser, gall y risgiau newid, yn arbennig os byddwch yn gwneud unrhyw newidiadau i'r ffordd rydych yn defnyddio eich safle, neu os byddwch yn newid y cynllun.
- > Os bydd eich adolygiad yn dangos risgiau newydd neu wahanol, bydd yn rhaid i chi lunio cynllun i ymdrin â'r rhain er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn parhau mor ddiogel â phosibl.
- > Mae'n gwneud synnwyr cadw cofnod ysgrifenedig o ganfyddiadau eich asesiad risg ac unrhyw gynllun newydd a wnewch.

Defnyddiwch y rhestr wirio hon i'ch helpu i gynnal eich asesiad risg.

## 1. Beth yw perygl tân

- A ydych wedi canfod unrhyw beth a allai ddechrau tân?  
Gwnewch nodyn ohono.
- A ydych wedi canfod unrhyw beth a allai losgi?  
Gwnewch nodyn ohono.

## 2. Pwy sy'n wynebu risg?

- Nodwch y bobl a allai wynebu risg, yn arbennig unrhyw un sy'n debygol o fod yn agored i niwed.

## 3. Sut rydych yn bwriadu cadw pobl yn ddiogel?

- A ydych wedi cadw tanwydd a gwres ar wahân?
- A ydych wedi asesu'r risg i westeion ac ymwelwyr eraill ac i staff (os oes rhai gennych)?
- Pe bai rhywun am ddechrau tân yn fwriadol, a oes unrhyw beth o amgylch y safle y gallai ei ddefnyddio?
- A ydych yn cynnal a chadw offer y tŷ ac yn eu gwasanaethu'n rheolaidd?
- A fyddwch yn gwybod os oes tân?
- Sut y byddwch yn gwneud yn siŵr bod pawb yn dianc?
- Pwy fydd yn ffonio'r Gwasanaeth Tân?
- A ellid diffodd tân bach yn gyflym i'w rwystro rhag lledu?
- A ydych wedi cynllunio llwybrau dianc?
- A ydych wedi gwneud yn siŵr y bydd pobl yn gallu dianc yn ddiogel, hyd yn oed yn ystod y nos?
- A yw eich holl gyfarpar diogelwch yn gweithio ac yn cael ei gynnal a'i gadw?
- A fydd pobl yn gwybod beth i'w wneud a sut i ddefnyddio unrhyw gyfarpar?



#### 4. Cofnodi, cynllunio a hyfforddi

- A ydych wedi cael gwared ar unrhyw risgiau a ganfuwyd gennych neu wedi'u lleihau?
- A ydych wedi nodi beth rydych wedi'i wneud i gael gwared ar y risgiau hyn neu eu lleihau?
- A ydych wedi cadw cofnod o'r hyn rydych yn bwriadu ei wneud i ymdrin ag unrhyw risgiau na allwch gael gwared arnynt?
- A oes gennych amserlen ar gyfer cynnal unrhyw welliannau angenrheidiol?
- A ydych wedi dweud wrth eich teulu ac unrhyw staff beth i'w wneud mewn unrhyw argyfwng?
- A ydych wedi cynnal ymarfer tân ac wedi ei gofnodi?
- A ydych yn gwybod sut i ddefnyddio unrhyw ddiffoddwyr tân sydd ar gael?
- A oes gwybodaeth am y cynllun mewn argyfwng a llwybrau dianc ar gael i westeion?
- A ydych wedi dweud wrth eich gwesteion beth i'w wneud os byddant yn canfod tân?

#### 5. Cynnal eich cynllun

- A ydych wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r tu mewn neu'r tu allan i'r adeilad?
- A fu tân, neu a fu bron tân, yn y gorffennol?
- A ydych wedi newid y ffordd rydych yn gweithio?
- A ydych wedi cynllunio eich ymarfer tân nesaf?



# Enghraifft o ffurflen asesu risg

Gall yr enghraifft hon o gofnod o'r canfyddiadau roi syniad i chi o'r hyn y gall fod angen i chi ei gynnwys yn eich asesiad risg eich hun.

Asesiad Risg - Cofnod o ganfyddiadau pwysig		
<b>Asesiad risg ar gyfer</b>		<b>Cynhaliwyd yr asesiad gan</b>
Adeilad: <b>Gwely a Brecwast Orange House Farm</b>		Dyddiad: <b>17/8/09</b>
Cyfeiriad: <b>Lôn Uchaf Tre Fawr AA11 6ZZ</b>		Cwblhawyd gan: <b>A Smith</b>
		Llofnod: <b>A. Smith</b>
Llawr/ardal: Ffermdy dau lawr â chwe ystafell wely. Defnyddir dwy ystafell wely ar y llawr cyntaf ar gyfer gwsteion Gwely a Brecwast a rhennir gweddill y ffermdy gyda'r teulu.		Defnydd: Ffermdy yn darparu ystafelloedd gwely at ddibenion gwely a brecwast, rhennir y cyfleusterau eraill gyda'r teulu.
Cam 1 - Peryglon tân		
Pethau a allai gynnau tân	Ffynonellau tanwydd	Ffynonellau ocsigen
Gwres o goginio Deunyddiau smygu Peiriant sychu dillad	Olewau coginio Dodrefn a dillad gwely Dillad yn y peiriant golchi dillad/sychu dillad	Deunyddiau glanhau (Perocsidau yn y cwpwrdd glanhau)
Cam 2 - Pobl sy'n wynebu risg		
Gwsteion unrhyw le yn y tŷ, gan gynnwys unrhyw un mewn oed, anabl neu ifanc iawn		
Cam 3 - Gwerthuso'r risg, cael gwared arni, ei lleihau a diogelu pobl rhagddi		
<b>Beth yw'r risg?</b>	Nid yw'r risg o goginio yn fwy nag ydyw pan dim ond y teulu sydd ar y safle, ni chaniateir i westeion smygu, nid oes unrhyw aelodau o'r teulu yn smygu	
<b>Pwy sy'n wynebu risg?</b>	Gall tân ledw drwy'r adeilad, nid yw gwsteion byth ar eu pen eu hunain ar y safle, mae aelod o'r teulu yno bob amser, mae pawb yn wynebu risg yn ystod y nos pan fyddant yn cysgu.	
<b>Camau a gymerwyd i gael gwared ar y peryglon a allai achosi tân a'u lleihau</b>	Defnyddir ffrîwr saim dwfn â thermostat yn lle padell sglodion. Cyfyngir perocsidau i un botel fach. Mae larymau mwg cysylltiedig â batris sy'n para deng mlynedd wedi'u gosod yn yr ystafelloedd gwely ac ar ben y grisiau ar y llawr cyntaf ac yn y lolfa ar y llawr daear.	
<b>Camau a gymerwyd i gael gwared ar y risg i bobl o dân a'i lleihau</b>	Mae pob aelod o'r teulu yn ymwybodol o'r cynllun dianc rhag tân, a sut i ddefnyddio'r diffoddydd tân yn y gegin. Ceir taflen wybodaeth yn mhob ystafell wely sy'n dangos y lwybrau dianc. Sefydlwyd arfer o gau pob drws a gwneud yn siŵr bod popeth wedi'i ddiffodd. Gosodwyd drysau pren caled yn lle dau ddrws nad oeddent wedi'u gosod yn dda.	
Asesiad/adolygiad		
<b>Dyddiad yr asesiad/adolygiad</b>	<b>Cwblhawyd gan</b>	<b>Llofnod</b>

Efallai y byddwch am ddefnyddio'r ffurflen wag hon fel templed ar gyfer eich cofnod eich hun o ganfyddiadau eich asesiad risg.

<b>Asesiad Risg - Cofnod o ganfyddiadau pwysig</b>		
<b>Asesiad risg ar gyfer</b>		<b>Cynhaliwyd yr asesiad gan</b>
Adeilad:	Dyddiad:	
Cyfeiriad:	Cwblhawyd gan:	
	Llofnod:	
Llawr/ardal:	Defnydd:	
<b>Cam 1 - Peryglon tân</b>		
<b>Pethau a allai gynnau tân</b>	<b>Ffynonellau tanwydd</b>	<b>Ffynonellau ocsigen</b>
<b>Cam 2 - Pobl sy'n wynebu risg</b>		
<b>Cam 3 - Gwerthuso'r risg, cael gwared arni, ei lleihau a diogelu pobl rhagddi</b>		
<b>Beth yw'r risg?</b>		
<b>Pwy sy'n wynebu risg?</b>		
<b>Camau a gymerwyd i gael gwared ar y peryglon a allai achosi tân a'u lleihau</b>		
<b>Camau a gymerwyd i gael gwared ar y risg i bobl o dân a'i lleihau</b>		
<b>Asesiad/adolygiad</b>		
<b>Dyddiad yr asesiad/adolygiad</b>	<b>Cwblhawyd gan</b>	<b>Llofnod</b>

## ? A oes rhaid i mi gynnal asesiad risgiau tân?

Oes. Os ydych yn darparu unrhyw lety i westeion mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i chi wneud hyn.

## ? Beth os fy nghartref fy hun ydyw?

Os oes gennych unrhyw westeion sy'n talu, hyd yn oed os ydych yn eich cartref eich hun, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r gyfraith ar ddiogelwch tân a chynnal asesiad risg. Mae tân ar safle bach yr un mor beryglus â tân mewn eiddo mwy o faint. Caiff bron i bawb sy'n marw mewn tanau yn y wlad hon eu dal ar safleoedd domestig.

## ? Nid wyf ond yn derbyn ychydig o westeion ar y tro. A oes angen i mi gydymffurfio?

Oes.

Os yw eich safle yn debyg i gartref teulu, mae'n debygol bod y rhagofalon diogelwch tân y bydd angen i chi eu cymryd yn symlach na'r rhai hynny sydd eu hangen ar gyfer safleoedd mwy o faint â chynlluniau mwy cymhleth a staff. Fodd bynnag, nid oes diffiniad terfynol o ystyr safle 'bach', felly mae'n rhaid i chi ddefnyddio synnwyr cyffredin.

Felly, os yw eich safle yn fwy na chartref teulu, neu'n cynnwys llwybrau gadael hir (mwy na 12 metr fwy na thebyg), anarferol neu gymhleth, mae'n debygol y bydd angen i chi ystyried trefniadau diogelwch tân mwy soffistigedig na'r rhai a gwmpesir yma.

Os felly, gweler ein canllaw ar asesiadau risg diogelwch tân ar gyfer Llety Dros Nos am ragor o wybodaeth. Gallwch lawrlwytho copi o [www.wales.gov.uk/fire](http://www.wales.gov.uk/fire).

## ? A yw'r gyfraith yn cwmpasu fy eiddo hunanarlwyo?

Ydy. Cwmpesir unrhyw fflat, tŷ, bwthyn neu garafán a osodir gennych i eraill ar drefniant tymor byr neu am gyfnod o wyliau. Eich cyfrifoldeb chi yw cynnal asesiad risg a rhoi mesurau ar waith i ddiogelu unrhyw un sy'n aros yno.

## ? Pam y mae rhaid i mi gynnal asesiad risg

Newidiodd y gyfraith yn 2006 oherwydd bod y Llywodraeth yn credu mai'r rheini sy'n berchen ar fusnes neu'n rhedeg busnes yw'r bobl orau i ddeall a rheoli diogelwch tân ar eu safle.

Mae risgiau'n newid dros amser ac, fel y bobl sy'n rhedeg y busnes, chi fydd yn y sefyllfa orau i ganfod y risgiau hyn a chymryd camau gweithredu. Credwn fod hon yn ffordd well a mwy hyblyg o wneud yn siŵr bod gennym safon uchel o ddiogelwch tân na'r hen system o roi tystysgrifau tân. O dan y ddeddfwriaeth flaenorol, roedd hefyd yn rhy hawdd i berchennog busnes anghofio am ddiogelwch tân unwaith iddo gael tystysgrif tân.

## ? Mae gennyf dystysgrif tân - a oes angen i mi wneud unrhyw beth?

Oes. Bydd angen i chi gynnal asesiad risgiau tân. Diddymwyd tystysgrifau tân ac nid yw'r rhai a roddwyd yn flaenorol yn ddilys mwyach.

## ? Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cynnal asesiad?

Rydych yn torri'r gyfraith, a gallech fod yn peryglu bywydau pobl. Diben asesiad risg yw lleihau'r risgiau a chynllunio sut i gadw pobl yn ddiogel os oes tân. Os na fyddwch yn gwneud hyn, byddwch yn peryglu eich gwsteion, eich eiddo a'ch busnes. Mae'n bosibl y bydd y Gwasanaeth Tân yn cynnal archwiliad o'ch safle, fel rhan o'i gyfrifoldeb i orfodi'r gyfraith neu, gall rhywun sy'n aros gyda chi neu'n gweithio i chi roi gwybod i'r Gwasanaeth Tân amdanoch os

ydynt yn teimlo mewn perygl. Os bydd y Gwasanaeth Tân yn cynnal archwiliad, bydd am wybod eich bod wedi cynnal asesiad risg. Mae cadw cofnod ysgrifenedig o'ch asesiad risg yn ffordd hawdd o ddangos eich bod wedi cymryd diogelwch tân o ddifrif.

Os na fydd y Gwasanaeth Tân o'r farn bod y mesurau rydych wedi'u cymryd neu rydych yn bwriadu eu cymryd yn ddigon da i ddiogelu pobl yn ddigonol, cewch gyfle i unioni pethau. Os na fyddwch yn gwneud hyn, gall y Gwasanaeth Tân roi hysbysiad i chi sy'n golygu bod yn rhaid i chi roi mesurau diogelwch tân gwell ar waith. Yn y pen draw, gallent gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn a gallai eich busnes gael ei gau.

### **?** A fydd fy Ngwasanaeth Tân lleol yn cynnal archwiliad o'm safle?

O bosibl. Fel arfer mae'r Gwasanaeth Tân yn cynnal archwiliadau o safleoedd yn ei ardal yn ôl y risg y maent yn ei pheri. Mae'n debygol yr ystyrir bod unrhyw adeilad lle mae pobl yn cysgu yn peri risg uchel. Bydd y Gwasanaeth Tân am wybod eich bod wedi cynnal asesiad risg a bod y trefniadau diogelwch tân rydych wedi'u rhoi ar waith yn ddigon da.

### **?** Beth os bydd y Gwasanaeth Tân o'r farn nad wyf wedi gwneud digon?

Mae amrywiaeth o fesurau y gall y Gwasanaeth Tân eu cymryd.

Os bydd o'r farn bod angen i chi wella eich diogelwch tân, gall roi cyngor i chi ar y mesurau y gall fod yn briodol i chi eu cymryd, a chytuno ar gyfnod o amser i chi wneud y gwelliannau.

Gall gymryd camau gorfodi ffurfiol os bydd yn canfod risg ddifrifol o dân nad ydych yn ei rheoli. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi wneud gwelliannau penodol i'ch trefniadau diogelwch tân.

Wrth ddelio â chi, gallwch ddisgwyl i'r Gwasanaeth Tân gynnig cyngor ar fesurau sy'n rhesymol yn ôl y risg ar eich safle penodol.

Dylai bob amser esbonio pam y mae angen mesurau o'r fath.

### **?** A fydd yn ddud i wella fy mesurau diogelwch tân

Mae'r cyfan yn dibynnu ar eich busnes a'ch safle. Mae'n bosibl y bydd angen i chi wella eich mesurau diogelwch tân a gall fod cost yn gysylltiedig â'r buddsoddiad hwn.

Mewn llawer o achosion, dylech allu prynu cynhyrchion diogelwch tân i'w defnyddio ar safleoedd bach o fanwerthwyr bach, fel siopau DIY. Mae'n debygol y bydd hyn yn rhatach na chynhyrchion diogelwch tân a gynlluniwyd ar gyfer safleoedd mwy o faint a mwy cymhleth.

Dylech brofi'r holl gyfarpar diogelwch yn rheolaidd. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gadw cofnod ysgrifenedig o'ch profion a'r canlyniadau.

### **?** Sut y gallaf gymryd anghenion gwasteion ag anableddau i ystyriaeth?

Bydd angen i chi feddwl am hyn a gwneud cynllun. Nid yw'n ddigon dibynnu ar y Gwasanaeth Tân i ymyrryd.

Rydym wedi llunio gwybodaeth i'ch helpu i ystyried anghenion pobl anabl.

Mae'n cynnwys cyngor ar ddatblygu cynlluniau i wagio'r adeilad. Gallwch lawrlwytho 'Guidance on the Means of Escape for Disabled People' am ddim o [www.wales.gov.uk/fire](http://www.wales.gov.uk/fire).

### **?** A fydd angen i mi osod system larwm tân, allanfeydd tân, drysau tân, chwistrellwyr newydd ac ati?

Bydd yr hyn sydd ei angen arnoch yn dibynnu ar eich busnes a'ch safle. Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fesurau penodol fod ar waith. Ond mae'n dweud bod yn rhaid i chi reoli'r risg gyffredinol yn ddigonol.

Mae'n debygol y bydd amrywiaeth o fesurau atal a diogelu posibl ar safleoedd unigol. Fel y sawl sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân ar eich safle, bydd angen i chi ddefnyddio eich barn i benderfynu beth sydd fwyaf priodol. Mae angen i chi ystyried y peryglon a ganfuwyd gennych, y risgiau i'r rheini sy'n aros neu'n gweithio yno a'u hanghenion, a chymeriad yr adeilad. Er enghraifft, mae'n debygol na fydd yr hyn a all fod yn briodol mewn byngalo hunanarlwyo modern yr un peth ag sy'n briodol ar gyfer coetsiws 300 mlwydd oed.

Gallwch benderfynu pa fesurau diogelwch tân a all wneud hyn orau o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael cyhyd â'u bod yn addas i fynd i'r afael â'r risg a nodwyd gennych.

Yn y llyfryn hwn, cynigiwn gyngor ymarferol ar y mesurau a all fod yn addas ar gyfer safleoedd llai o faint mwy domestig. Mae rhagor o gyngor ar ystod lawn o fesurau penodol a thechnegol y gall fod angen i chi eu hystyried - yn arbennig os oes gennych safle mwy o faint - ar gael yn y canllaw ar asesu risg diogelwch tân ar gyfer Llety Dros Nos. Gallwch lawrlwytho hwn am ddim o [www.wales.gov.uk/fire](http://www.wales.gov.uk/fire).

## A oes angen system synhwyro a larwm tân awtomatig arnaf?

Mae'n debygol y bydd angen system synhwyro tân awtomatig ar safleoedd sy'n debyg i gartref teulu (h.y. dau neu dri llawr) sy'n rhedeg o'r prif gyflenwad trydan (gyda batris wrth gefn) ac sy'n cynnwys synwryddion cysylltiedig. Bydd angen synwryddion ar y grisiau, yn y coridorau a'r ystafelloedd gwely. Cynlluniwyd y system hon (a elwir yn dechnegol yn system LD2 Gradd D) ar gyfer safleoedd domestig.

Mewn llety bach iawn (heb fod â mwy na dau llawr) sydd â dwy neu dair ystafell wely i westeion yn unig a man diogel y tu allan y gellir ei gyrraedd yn gyflym, gall system gysylltiedig o synwryddion â batri sy'n para deng mlynedd, neu synwryddion sydd wedi'u cysylltu â radio fod yn ddigon da.

(Yr enw technegol ar y system hon yw LD2 Gradd F). Efallai y gallwch osod system Gradd F eich hun.

Dylid cysylltu synhwyrdd gwres yn y gegin gyda gweddill y system Gradd D neu'r system Gradd F.

Pa system bynnag y byddwch yn ei gosod, bydd angen i chi ei phrofi'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn gweithio ac yn ddigon uchel i ddeffro unrhyw un sy'n cysgu. Mae systemau tebyg, sy'n seiliedig ar unedau dirgrynol a goleuadau'n fflachio, ar gael i ddiogelu pobl sy'n ei chael yn anodd clywed.

**Noder: Gall asesiad risg a gynhelir yn gywir ddangos bod angen amrywiad i'r safonau hyn. Mae'n debygol y bydd angen system fwy soffistigedig ar safle mwy o faint gyda phanel rheoli a manau galw.**

## A ddylwn ddarparu cyfarpar diffodd tân?

Dylai un diffoddydd tân ar bob llawr ger y grisiau a blanced dân yn y gegin fod yn ddigon yn y rhan fwyaf o safleoedd bach. Bydd angen i chi wneud yn siŵr bod y cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio yn glir a bod rhybudd i bobl beidio â cheisio diffodd unrhyw dân oni bai ei fod yn fach iawn. Gwagio'r safle yw'r peth mwyaf diogel i'w wneud.

Gallwch brynu diffoddwyr amlbwrpas addas, a warentir am bum mlynedd, o amrywiaeth o siopau DIY mwy o faint. Dylech wirio'r medrydd yn ofalus i wneud yn siŵr nad yw'r 'pwysau cronedig' wedi gollwng.

## Beth ddylai cynllun gwagio a chyfarwyddiadau ei gynnwys?

Os bydd eich larwm tân yn seinio yn ystod y nos pan fydd pobl yn cysgu gallwch wagio'r safle'n gynt os byddwch wedi dweud wrthynt beth sydd angen iddynt ei wneud ar ddechrau eu cyfnod gyda chi.

Gall cynllun syml fod yn ddefnyddiol i westeion. Gallai hyn gynnwys cyfarwyddiadau ar gefn drysau eu hystafelloedd gwely a gwybodaeth mewn pecyn croeso.

Dylech ddweud wrth bawb am adael yr adeilad ar unwaith drwy'r llwybrau a nodwyd pan fyddant yn clywed y larwm. Dylech gynllunio i ffonio'r Gwasanaeth Tân o'r tu allan i'r safle.

### **? Sut y gallaf wneud yn siŵr bod pawb yn gallu gadael y safle?**

Ar wahân i ddarparu gwybodaeth am beth i'w wneud pan fydd y larwm yn seinio, mae angen i chi wneud yn siŵr y gallir defnyddio unrhyw lwybrau dianc yn ddiogel. Mae llwybr dianc yn cynnwys unrhyw ystafelloedd, coridorau a grisiau y mae'n rhaid i chi fynd drwyddynt i ddianc o adeilad.

Dylech gadw pob drws sy'n agor i lwybrau dianc ar gau, yn arbennig yn ystod y nos. Mae hyn yn bwysig iawn yn y gegin. Os byddwch yn gadael drysau ar agor, mae'n llai tebygol y byddwch yn dianc yn ddiogel, hyd yn oed os oes synhwyrdd tân yn yr ystafell. Er bod dyfeisiau sy'n cau eu hunain yn ffordd dda o wneud yn siŵr bod drysau ar gau, gallant effeithio ar edrychiad y safle a'r ffordd rydych yn ei ddefnyddio. Os byddwch yn penderfynu y byddai'r rhain yn anaddas, gall dyfeisiau cau a osodir yn y ffrâm neu golfachau codi fod yn ddewisiadau amgen derbyniol.

Mae angen i ddrysau fod yn ddigon cryf i gadw unrhyw fwg neu dân yn ôl am gyfnod digon hir i roi cyfle i chi ddianc. Mewn safleoedd bach, mae'n debygol y bydd drws pren solet sydd wedi'i osod yn dda yn ei ffrâm yn ddigon da. Ni fyddai drws mewnlod wedi'i wneud o bren tenau yn cynnig diogelwch digonol a dylid gosod drws arall yn ei le.

Dylai drysau allanol, fel y drws blaen a'r drws cefn, fod yn hawdd eu hagor ac ni ddylai fod yn rhaid cael allwedd i'w hagor o'r tu mewn. Mae clicied Yale neu glicied fawd fel yn arfer yn ddigon da.

### **? A oes angen i mi ddarparu goleuadau argyfwng**

Dylai switsys goleuadau arferol fod yn hawdd eu canfod. Pe bai tân yn diffodd y goleuadau mewnlod arferol, dylech ystyried a fyddai unrhyw 'olau benthyg', er enghraifft o lampau stryd gerllaw, yn ddigon i alluogi pobl ar y safle i ddod o hyd i'w ffordd allan. Os na fyddai'n ddigon, gall fod yn dderbyniol, mewn safleoedd bach, dibynnu ar dorts his y gallir eu hailwefru sy'n goleuo'n naturiol os bydd y prif gyflenwad yn methu. Dylai fod un ym mhob ystafell gydag arwydd sy'n esbonio ei ddiben.

Bydd angen systemau goleuadau argyfwng mwy soffistigedig mewn safleoedd mwy o faint.

### **? A oes angen i mi ddarparu arwyddion allanfa dân?**

Dim ond yn yr ardaloedd lle mae eu hangen y dylid gosod arwyddion. Mewn safleoedd bach mae'n debygol y bydd y llwybr dianc a'r drws blaen yn amlwg, felly mae'n bosibl na fydd angen arwyddion allanfa dân. Dylech gynnwys manylion am y llwybr dianc yn y pecyn gwybodaeth a roddwch i westeion.

Dylai fod gennych arwyddion yn cyfeirio gwsteion at allanfeydd argyfwng os yw'r llwybrau dianc yn llai amlwg neu'n gymhleth.

### **? Pwy all fy helpu i gynnal asesiad risgiau tân?**

Mae'n debygol mai chi fydd y person gorau i ddeall a rheoli diogelwch tân ar eich safle. Felly, dylech allu cynnal yr asesiad risg eich hun gan ddilyn y pum cam allweddol ar dudalen 6 a 7, defnyddio'r wybodaeth yn y llyfryn hwn ac, os oes angen, gwybodaeth fanylach yn y Canllaw i Lety Dros Nos.

Gallwch hefyd ofyn i rywun eich helpu i gynnal eich asesiad risg neu gyflogi rhywun i'w gynnal ar eich rhan. Mae'n bosibl y bydd gan y person hwn fwy o wybodaeth, profiad neu arbenigedd na chi. Er enghraifft, efallai y byddwch yn adnabod rhywun sydd â phrofiad o gynnal asesiad risg ac a all eich helpu.

Neu, efallai y byddwch yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cyflogi arbenigwr ym maes diogelwch tân i'ch helpu. Rhestrir cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau diogelwch tân mewn cyfeiriaduron lleol. Mae manylion cwmnïau sy'n aelodau o gynllun cofrestredig ar gael, er enghraifft, ar wefan Sefydliad y Peirianwyr Tân yn [www.ife.org.uk/frr](http://www.ife.org.uk/frr) a Bodycote Warrington yn [www.warringtonfire.net/riskassessor](http://www.warringtonfire.net/riskassessor). Fel arall, efallai y gallwch ofyn i'ch yswirwyr am argymhelliad.

Os byddwch yn dewis cyflogi ymgynghorydd diogelwch tân i'ch helpu, argymhellwn y dylech gael sawl dyfynbris am y gwaith a gofyn am eirida gan safleoedd tebyg eraill cyn i chi wneud penderfyniad.

## Beth yw rôl y Gwasanaeth Tân? A all fy helpu?

Mae gan y Gwasanaeth Tân gyfrifoldeb cyfreithiol i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith diogelwch tân a'ch bod yn rheoli'r risgiau tân yn ddigonol.

Mae gan y Gwasanaeth Tân hefyd ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo diogelwch tân a gallwch ddarparu gwybodaeth a chynngor ar atal tân. Ni all gynnal yr asesiad risgiau tân ar eich cyfer.

**Cofiwch, os ydych yn gyfrifol am y safle, rydych yn gyfrifol yn gyfreithiol am wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.**

## Mae rhai Gwasanaethau Tân yn gweithredu'n wahanol - pam?

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob Gwasanaeth Tân nodi'r risgiau yn ei ardal. Bydd ganddo gynllun i leihau a rheoli'r risgiau hyn yn seiliedig ar ei broffil risg lleol.

Mae'n rhaid i bob Gwasanaeth Tân ddefnyddio ei arbenigedd proffesiynol i benderfynu a yw'r mesurau diogelwch tân sydd ar waith ar unrhyw safle penodol yn briodol ac a fyddent yn diogelu pobl yn ddigonol pe bai tân. Oherwydd amrywiadau o ran, er enghraifft, oedran, maint, adeiladwaith, cynllun, y defnydd a wneir o'r adeilad a'r rheini sy'n debygol o fod ynddo, nid oes un dull gweithredu sy'n addas i bawb mewn perthynas â diogelwch tân.

**Mae pob safle yn wahanol, ac yn yr un modd y bobl sy'n berchen arno, yn ei reoli neu'n aros yno. Efallai na fydd yr hyn a ystyrir yn fesurau diogelu digonol ar un safle yn ddigonol ar safle arall.**

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn anghytuno â chanlyniad archwiliad gan y Gwasanaeth Tân?

Bydd Gwasanaethau Tân, lle y bo'n briodol, yn rhoi cymorth a chynngor i chi ar sut i wella eich diogelwch tân. Mae'n rhaid iddynt ystyried mesurau sy'n gymesur ac yn rhesymol i fynd i'r afael â'r risgiau penodol a ganfyddir ar eich safle. Os nad yw'r risg yn un uniongyrchol neu uchel, gallant gytuno â chi ar gyfnod priodol o amser i wneud y gwelliannau angenrheidiol.

Os na fyddwch yn gwneud y gwelliannau a argymhellwyd o fewn yr amser y cytunwyd arno, neu os bydd y Gwasanaeth Tân yn canfod risg ddifrifol o dân nad ydych yn ei rheoli, mae ganddo'r cyfrifoldeb cyfreithiol i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Os oes angen, gall ddwyn achos llys yn eich erbyn. Yn gyntaf, bydd y Gwasanaeth Tân yn rhoi rhybudd gorfodi i chi, sy'n golygu bod yn rhaid i chi wneud gwelliannau penodol o fewn cyfnod penodol o amser.



Yn ystod archwiliad, os bydd swyddog archwilio yn canfod bod y Gwasanaeth Tân yn debygol o roi rhybudd gorfodi ffurfiol i chi, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y gallwch drefnu adolygiad anffurfiol gan reolwr uwch yn yr adran diogelwch tân.

Gallwch herio rhybudd gorfodi mewn llys ynadon ac mae'n eithaf syml gwneud hynny. Bydd gennych 21 diwrnod, o'r diwrnod y cafodd y rhybudd ei roi, i gyflwyno apêl i'r llys. Os credwch y gall apêl fod yn briodol, efallai y byddwch am gael cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr.

Mewn rhai achosion, efallai y byddwch yn cytuno gyda'r Gwasanaeth Tân bod angen i chi wella eich rhagofalon tân, ond ni fyddwch yn gallu cytuno ar y camau y mae angen i chi eu cymryd. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y byddwch chi a'r Gwasanaeth Tân yn cytuno i gysylltu â'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn penderfynu pa ragofalon tân y mae angen eu rhoi ar waith. Gelwir y broses hon yn 'pennu'. Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Tân a'r sawl sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân ar y safle gytuno i gysylltu â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Os bydd y Gwasanaeth Tân o'r farn y gallai proses bennu achosi oedi a fyddai'n peryglu diogelwch pobl i raddau annerbyniol, gall benderfynu peidio â dilyn proses o'r fath. Yn yr achos hwn, byddai'n rhaid i chi apelio yn y llysoedd.

## Beth fydd yn digwydd unwaith y byddaf wedi gwneud fy asesiad risgiau tân?

Dylech nodi'r hun a ganfuwyd gennych, a'r mesurau rydych wedi'u rhoi ar waith. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i chi gael cynllun ysgrifenedig os oes gennych bum aelod o staff neu fwy, ond mae'n syniad da i bawb gadw cofnod.

- Cadwch gopi mewn man diogel ac oddi ar y safle (er enghraifft gydag aelod o'r teulu neu eich cyfreithiwr)
- Gwnewch yn siŵr ei fod ar gael rhag ofn y cewch archwiliad gan y Gwasanaeth Tân.
- Adolygwch y cynllun yn rheolaidd - o leiaf unwaith y flwyddyn - a phan fyddwch yn gwneud unrhyw newidiadau i'ch safle, e.e. os byddwch yn ychwanegu ystafell arall i westeion, neu'n newid cynllun yr eiddo.

Os ydych yn bwriadu gwneud newidiadau i'ch safle, efallai y bydd angen i chi gydymffurfio â chyfraith cynllunio ac adeiladu, yn arbennig os yw eich safle yn adeilad rhestredig.

## A fydd yn effeithio ar fy ngradd sêr?

Fel rhan o'r cynllun ansawdd neu radd sêr, mae VisitBritain a'r AA yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau gydymffurfio â'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol sydd ganddynt. Os na fyddwch yn cynnal asesiad risg, bydd hyn yn effeithio ar eich gradd.

Ni fydd VisitBritain na'r AA yn rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau diogelwch tân sydd gennych ar waith - nid ydynt yn arbenigwyr ym maes diogelwch tân.

I weld rhagor o gwestiynau ac atebion am y gyfraith diogelwch tân, ewch i:

[www.communities.gov.uk/firesafety](http://www.communities.gov.uk/firesafety)

or

[www.wales.gov.uk/fire](http://www.wales.gov.uk/fire)

I gael gwybodaeth fanwl am ddarparu llety dros nos ar eich safle, gweler ein canllaw technegol ar asesiadau risg diogelwch tân mewn llety dros nos. Gallwch lawrlwytho copi am ddim o'n gwefan yn [www.wales.gov.uk/fire](http://www.wales.gov.uk/fire).

Gallwch hefyd lawrlwytho copi o'r canllaw atodol 'Means of Escape for Disabled People', sy'n darparu gwybodaeth am hygyrchedd a ffyrdd o ddianc.

**Er mwyn cysylltu â'ch Gwasanaeth Tân lleol edrychwch am y rhif yn eich llyfr ffôn lleol neu ewch i [www.firegateway.gov.uk](http://www.firegateway.gov.uk)**

**Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael hefyd gan:**

VisitBritain

Gwefan: [www.visitbritain.com/quality](http://www.visitbritain.com/quality)

Y Gymdeithas Gwely a Brecwast

Gwefan: [www.bandbassociation.org](http://www.bandbassociation.org)

Cymdeithas Gweithredwyr Hunanarlwyo Lloegr

Gwefan: [www.englishselfcatering.co.uk](http://www.englishselfcatering.co.uk)

Cymdeithas Lletygarwch Prydain

Gwefan: [www.bha-compliance.org.uk](http://www.bha-compliance.org.uk)

Sefydliad Tafarnwyr Prydain

Gwefan: [www.bii.org](http://www.bii.org)



ISBN 978 0 7504 5259 5

© Hawlfraint y Goron Medi 2009

CMK-22-10-121

E1440910

